Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Uned Addysg Marlowe St David's

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Uned Addysg Marlowe St David's

Mae Uned Addysg Marlowe St David’s yn ysgol annibynnol arbennig sydd wedi’i lleoli yng ngogledd Sir Benfro. Y perchennog yw Marlowe Child and Family Services Ltd. Mae’r ysgol wedi’i chofrestru i dderbyn hyd at 16 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY), anawsterau dysgu cymedrol (ADC) ac anhwylder y sbectrwm awtistiaeth (ASA).

Mae’r ysgol yn darparu addysg ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed, sy’n byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae saith o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bron bob un o’r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae pob un o’r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu yn Lloegr ac mae pob un ohonynt yn preswylio yn un o gartrefi plant y perchennog. Saesneg yw iaith gyntaf pob un o’r disgyblion.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2018 a chynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Ionawr 2018.

## Prif ganfyddiadau

**Cryfderau**

Mae'r ysgol yn darparu awyrgylch tawel a chroesawgar ar gyfer disgyblion ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion a galluoedd eu disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddeilliannau cymdeithasol ac academaidd disgyblion. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio effeithiol a phwrpasol gyda disgyblion sy'n eu galluogi i ddatblygu gwydnwch, magu hyder a gwella'u parodrwydd ar gyfer dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau dysgu a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm hyblyg, eang a chytbwys sy'n gweddu'n dda i anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion. Cynigir ystod briodol o gymwysterau a phrofiadau perthnasol i ddisgyblion hŷn, sy'n eu galluogi i ddilyn llwybr cwricwlwm sy'n bodloni eu hanghenion a'u diddordebau yn addas. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa ar lwybrau cymhwyster perthnasol sy'n cefnogi profiadau ar ôl yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth fyfyriol a chefnogol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n datblygu diwylliant agored a difyr. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r blaenoriaethau gwella presennol yn yr ysgol, ac fe gaiff y rhain eu rhannu'n briodol â staff.

**Meysydd i'w datblygu**

Mae'r ysgol yn datblygu ardaloedd dysgu priodol yn yr awyr agored. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu lles, medrau gwaith tîm a medrau ymarferol. Fodd bynnag, mae adeilad yr ysgol yn ddi-raen, ac mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd dysgu ar gyfer y disgyblion. Felly, bydd Estyn yn gofyn i arolygydd ychwanegol ymweld â'r ysgol i asesu addasrwydd adeilad yr ysgol a chydymffurfiad â Rheoliadau perthnasol Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae staff yn yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion amrywiol y disgyblion. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i staff rannu arfer dda â'i gilydd ac o ysgolion eraill yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn yr ysgol wedi dangos gwydnwch ac ymroddiad trwy gydol y pandemig ac yn wyneb heriau eraill. Mae heriau staffio adeg yr ymweliad monitro yn cyfyngu ar allu'r pennaeth i weithio'n strategol.

Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliant boddhaol i ddarpariaeth adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i sicrhau bod TGCh yn cael effaith ar safonau disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol o hyd.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella mynediad at TG ar draws y cwricwlwm

A3 Marlowe Child and Family Services Ltd i ddarparu strwythur staffio sefydlog ar draws yr ysgol

A4 Datblygu cyfleoedd i staff rannu arfer dda yn fewnol ac o ysgolion lleol eraill

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cwblhau'r polisi addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd i adlewyrchu anghenion y disgyblion a diwygio'r cynllun gwaith yn unol â'r diwygiadau i'r polisi**

Mae arweinwyr wedi sicrhau bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran bodloni'r argymhelliad hwn.

Mae'r ysgol wedi sefydlu polisi a chwricwlwm effeithiol sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Caiff y cwricwlwm addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI) ei gydlynu gan athro arweiniol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynllunio, gweithredu ac adolygu'r cwricwlwm. Mae'r cydlynydd yn cynorthwyo staff addysgu â chyflwyno ac asesu ABGI. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm wedi'i strwythuro'n dda ac yn cael ei ddeall yn dda. Mae'n datblygu lles a medrau disgyblion yn effeithiol.

Mae cwricwlwm ABGI yr ysgol yn caniatáu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwydnwch ac ymwybyddiaeth o sut i fyw bywydau iach a boddhaus. Mae'r rhain yn cynnwys medrau sydd eu hangen ar ddisgyblion i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau. Cynigir cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ystod eang o themâu priodol fel rheoli emosiynau'n hyderus a chanlyniadau gweithgareddau sy'n cynnwys elfen o risg.

Cyflwynir y cwricwlwm ABGI trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau diddorol ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd â ffocws mewn gwersi, gwaith 1:1 gyda gweithiwr allweddol a digwyddiadau oddi ar y safle. Hefyd, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion elwa ar sesiynau gan ddarparwyr allanol fel y swyddog heddlu cymunedol lleol.

Mae staff addysgu wedi elwa ar ddysgu proffesiynol i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau mewn cyflwyno cwricwlwm ABGI gwerthfawr.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gyfrannu eu safbwyntiau ar arlwy’r cwricwlwm ABGI. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso adnoddau a nodi dulliau sy’n bodloni eu hanghenion orau. Mae disgyblion yn ymgysylltu’n dda â’r gweithgareddau hyn.

**Argymhelliad 2: Adolygu arlwy’r cwricwlwm, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn**

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr yn yr ysgol wedi adolygu arlwy’r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion, galluoedd a diddordebau pob un o’r disgyblion. Yn ddiweddar, gwnaed mwy o waith i ddiwallu anghenion disgyblion hŷn yn yr ysgol, er enghraifft cyfleoedd cynyddol ar gyfer astudio a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith. Mae cynlluniau cwricwlwm ar gyfer disgyblion hŷn wedi cael eu rhoi ar waith yn ddiweddar, ond mae’n rhy gynnar i werthuso eu heffaith.

Mae’r ysgol wedi cynyddu’r ystod o gymwysterau gwerth chweil sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau lefel TGAU yn ogystal â chymwysterau lefel mynediad a lefel cyn-mynediad.

Mae Cwricwlwm Cymeriad Ysgol Marlowe yn gryfder. Mae’n darparu datblygiad ychwanegol o ran medrau allweddol, cryfderau cymeriad a gwerthoedd fydd eu hangen ar ddisgyblion i fod yn oedolion llwyddiannus annibynnol. Mae hyn yn cynnwys rhinweddau fel chwilfrydedd, empathi, parch, goddefgarwch a gwaith tîm.

**Argymhelliad 3: Cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm**

Wrth gynllunio ar gyfer datblygu’r cwricwlwm, mae arweinwyr wedi darparu arweiniad priodol i staff integreiddio medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cynllunnir yn glir ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd, a chânt eu hymgorffori ym mhob gwers.

Caiff cynnydd yn y meysydd hyn ei olrhain yn ofalus i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddatblygu’n briodol. Fodd bynnag, mae’n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu cynllunio neu integreiddio medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 4: Cryfhau prosesau hunanwerthuso a gwella trwy werthuso’r holl ddata sydd ar gael**

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd da yng nghyd-destun yr heriau a achoswyd gan y pandemig, o ran bodloni’r argymhelliad hwn.

Mae’r pennaeth yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac yn sicrhau strategaethau gwerthfawr ar gyfer y camau nesaf yn nhaith yr ysgol i wella.

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cymryd sawl cam defnyddiol i gryfhau’r cyswllt rhwng defnyddio data a hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bellach, rhoddir pwyslais cryf ar ddadansoddi data, ochr yn ochr ag arsylwadau gwersi, ac ymgynghoriadau â disgyblion. Mae’r camau gweithredu hyn yn cynnwys monitro ac asesu pwrpasol yn erbyn targedau penodol i ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen effeithiol a chefnogol o arsylwadau gwersi, sy'n canolbwyntio'n briodol ar anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r rhaglen hon, ynghyd â gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr, wedi gwella arfer. Hyd yma, mae'r pennaeth wedi cynnal yr holl arsylwadau gwersi i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd a gwerthuso. Nid yw cyfleoedd ar gyfer arsylwi cymheiriaid wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae gan y pennaeth farn glir am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i gryfhau agweddau fel y cynnig galwedigaethol yn yr ysgol a'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai’r ysgol:

- sicrhau bod adeiladau yn darparu gwydnwch rhesymol rhag treiddio gan law, eira, gwynt ac anwedd o’r tir
- sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a rhannau eraill o’r ysgol yn cael eu cynnal mewn cyflwr taclus, glân a hylan
- sicrhau safon foddhaol a chynhaliaeth ddigonol o ran addurnwaith
- sicrhau bod lloriau priodol a’u bod mewn cyflwr da

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio’n llawn â’r gofynion hyn, dylai’r ysgol fynd i’r afael â’r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (Safle Estyn)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: Safle Estyn

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/04/2022